

15 Gorffennaf 2022

Annwyl gyfaill,

**Craffu ar Fil Cydgrynhai cyntaf Cymru – Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).**

Fel y gwyddoch o bosibl, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Cydgrynhai cyntaf Cymru yn y Senedd yn ddiweddar – sef [Bil yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\)](#). ("y Bil"). Ceir manylion pellach am y broses ar gyfer craffu ar Ffiliau Cydgrynhai yn [Rheol Sefydlog 26C](#) a [chanllawiau'r Llywydd i ategu'r drefnu o weithredu Rheol Sefydlog 26C](#).

Mae cylch gwaith y [Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#) yn cynnwys ystyried pob Bil Cydgrynhai a gyflwynir i'r Senedd, ac rydym newydd ddechrau ein gwaith craffu ar y Bil.

[Ddydd Llun 11 Gorffennaf](#), cawsom dystiolaeth gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a chan ddrafftwyd o Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae recordiad o'r sesiwn, ynghyd â thrawsgrifiad gair am air, ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae gan y Pwyllgor tan 16 Rhagfyr 2022 i gwblhau ei ystyriaeth gychwynol o'r Bil. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i graffu ar y Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26C.17, sef y byddwn yn ystyried:

- i. a ydym yn fodlon bod cwmpas y gwaith cydgrynhai yn briodol;
- ii. a ydym yn fodlon bod y deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys wrth gydgyrnhai;
- iii. a yw'r Bil yn cydgrynhai'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig;
- iv. a yw'r Bil yn cydgrynhai'r gyfraith yn glir ac yn gyson.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw fater arall y credwn ei fod yn berthnasol i Reol Sefydlog 26C.

Rydym yn cysylltu â chi i gynnig cyfle i chi rannu eich barn â ni am y Bil, a byddem yn croesawu cael eich barn am yr ymarfer cydgrynhoi hwn. Rydym wedi cysylltu â chi oherwydd bod gennych ddiddordeb/rôl o bosibl o ran amgylchedd hanesyddol Cymru; oherwydd bod gennych ddiddordeb/rôl o bosibl mewn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru; neu oherwydd eich gwaith gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi gynnal yr ymarfer cydgrynhoi cyn cyflwyno'r Bil.

Wrth roi eich barn, gofynnwn i chi strwythuro eich ymateb yn unol â'r pedwar pwynt a nodir uchod.

Wrth gynnal ein gwaith craffu ar y Bil, bydd yn rhaid inni ystyried diben ymarfer cydgrynhoi. Ni all Bil Cydgrynhoi ddiwygio'r gyfraith na chyflwyno polisi newydd – ni chaiff ond cydgrynhoi'r gyfraith bresennol (fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26C.2). Fel y pwyllgor cyfrifol, rydym yn tynnu eich sylw at y ffaith na ddylem argymhell unrhyw newidiadau i'r Bil a fyddai'n gyfystyr â diwygio'r gyfraith, gan y byddai hynny'n mynd â'r Bil y tu allan i gwmpas ymarfer cydgrynhoi.

I'ch barn lywio ein gwaith craffu ar y Bil yn nhymor yr hydref, byddai'n dda gennym gael unrhyw ymateb yr hoffech ei ddarparu erbyn 6 Medi.

Rydym wedi neilltuo rhywfaint o amser yn ein rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref i glywed, yn bersonol, gan y rhai y gallai fod angen trafod eu tystiolaeth ysgrifenedig ymhellach. Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn nodi 24 Hydref 2022 fel y dyddiad posibl ar gyfer sesiynau tystiolaeth o'r fath.

Edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies  
Cadeirydd

## Darparu tystiolaeth ysgrifenedig

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Disgwylwn i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

## Datgelu gwybodaeth

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen polisi'r Senedd ar ddatgelu gwybodaeth cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. <https://senedd.cymru/cymorth/preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd-pwyllgorau-r-senedd/>